**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Medi 2013

Annwyl David,

**BIL RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU)**

Rwy'n bwriadu cyflwyno'r Bil hwn gerbron y Cynulliad ar 14 Hydref, er mwyn i awdurdodau lleol o bob cwr o Gymru gael y pwerau a'r dulliau gweithredu angenrheidiol i fynd i'r afael â phroblem pori anghyfreithlon erbyn misoedd y gaeaf, gan mai dyna pryd y bydd y broblem ar ei hanterth fel rheol. Mae'r Pwyllgor Busnes heddiw wedi cytuno ar yr amserlen ar gyfer proses ystyried y Cynulliad, ac wedi cytuno na fydd y Bil hwn yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor yn ystod Cam 1.

Wrth geisio sicrhau bod y Bil yn cwblhau pob cam o broses ystyried y Cynulliad cyn gwyliau'r Nadolig er mwyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Ionawr (yn ddibynnol ar Gydsyniad Brenhinol), rwy'n ymwybodol na fydd eich Pwyllgor yn cael cyfle i fanteisio ar broses graffu Cam 1 arferol. Fodd bynnag, hoffwn gynnig dod i gyfarfod y Pwyllgor er mwyn rhoi tystiolaeth cyn y drafodaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil ar 22 Hydref, pe byddai hynny'n ddefnyddiol.

Os yw'r cynnig hwn yn dderbyniol, efallai y gallai'r Clerc gysylltu â'm Hysgrifennydd Dyddiadur (DS.Minister.For.NRF@wales.gsi.gov.uk neu 029 2089 8456).

Yn gywir,

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*